COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT. AR DYDD MERCHER, 25 CHWEFROR 2026 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Maer/Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | O Clatworthy | RJ Collins |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | J Gebbie |
| W R Goode | RM Granville | GC Haines | M L Hughes |
| D M Hughes | M R John | M Jones | W J Kendall |
| M Lewis | R J Smith | JC Spanswick | I M Spiller |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | A Ulberini-Williams | G Walter |
| A Wathan | AJ Williams | HM Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | T Wood |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | N Clarke | C Davies | J E Pratt |
| P Davies | P Ford | H Griffiths | P W Jenkins |
| J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | | |

Swyddogion:

-

**250. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelodau canlynol:-<br><br>Councillor Chris Davies<br>Councillor Norah Clarke |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

## 251. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol:-<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Amanda Williams ddatgan buddiant personol yn Eitem 5 gan ei bod yn llywodraethwr cymunedol yn Ysgol Gynradd Coety, oedd yn cael ei chrybwyll yn yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

## 252. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y Prif Weithredwr a’r Aelodau canlynol o’r Cabinet (Ni wnaed/nid oedd angen penderfyniadau):-<br><br>• Y Maer |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

## 253. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (Ni wnaed/nid oedd angen penderfyniadau). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

## 254. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026-27 i 2029-30

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2026-27 i 2029-30, gan gynnwys cyllideb refeniw 2026-27 a'r Rhaglen Gyfalaf 2025-26 i 2035-36, yn ogystal â chymeradwyo hefyd yr elfennau penodol canlynol:<br><br>• Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2026-27 i 2029-30 (Atodiad 3 i'r adroddiad, gydag Atodiadau A i I).<br>• Y Gofyniad Cyllideb Net o £408,148,969 yn 2026-27.<br>• Treth Gyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £2,007.06 ar gyfer 2026-27 (yn Nhabl 17 yr MTFS).<br>• Cyllidebau 2026-27 fel y'u dyrannwyd yn unol â Thabl 10 ym mharagraff 4.1.3 yr MTFS.<br>• Y pwysau cyllidebol a amlinellwyd yn Atodiad C ar gyfer 2026-27 i 2029-30.<br>• Y gostyngiadau cyllidebol a amlinellwyd yn Atodiad D ar gyfer 2026-27 i 2029-30.<br>• Y Rhaglen Gyfalaf 2025-26 i 2035-36, oedd ynghlwm yn Atodiad G i'r MTFS. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

**255. Treth y Cyngor 2026-27**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Yng ngoleuni cymeradwyaeth gynharach y Cyngor i'r gofyniad cyllideb net arfaethedig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £111,980,641 ar gyfer 2026-27 a Threth Gyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £2,007.06 ar gyfer 2026-27, cytunodd y Cyngor ymhellach i:<br><br>• Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, fel y nodwyd yn Nhabl 3 yr adroddiad:<br>• Nodi cyfanswm taliadau'r Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D ar gyfer 2026-27 i bob un o ardaloedd y Cynghorau Cymuned fel yr amlinellwyd yn Nhabl 6 a'r tâl cyfanredol i bob ardal Cyngor Cymuned ar gyfer pob band treth gyngor fel yr amlinellwyd yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

**256. Strategaeth Gyfalaf 2026-27 i 2035-36**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf 2026-27 i 2035-36, gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus 2026-27 i 2035-36 a'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol (MRP) 2026-27 yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

## 257. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026-27

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026-27 gan gynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys 2026-27 i 2028-29 yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

## 258. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Chwefror 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 19:33